

BOWEN, BEN (1878 - 1903), efrydydd a bardd

Enw: Ben Bowen

Dyddiad geni: 1878

Dyddiad marw: 1903

Rhiant: Dinah Bowen (née Davies)

Rhiant: Thomas Bowen

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: efrydydd a bardd

Maes gweithgaredd: Addysg; Eisteddfod; Barddoniaeth; Ysgolheictod ac leithoedd

Awdur: Benjamin Bowen Thomas

Chweched plentyn Thomas a Dinah Bowen, Treorci, Rhondda. Addysgwyd ef yn ysgol fwrdd Treorci, ysgol golegol Pontypridd, a Choleg y Brifysgol, Caerdydd. Yn lowr ieuanc, dan ddylanwad cymdeithasau llenyddol lleol, eisteddfodau, ac ysgrifau **D. W. Jones** ('Dafydd Morgannwg') yn y *South Wales Weekly News*, a **Thomas Williams** ('Brynfab') yn *Y Darian*, bu ganddo ddiddordeb y tu hwnt i'w oed mewn barddoniaeth. Erbyn cyrraedd ei 18 oed yr oedd wedi ennill cydnabyddiaeth fel bardd addawol. Enillodd gadeiriau eisteddfodol ym Mhenrhiw ceibr (1896) ac Aberdâr (1897).

Gadawodd y pwll glo yn 1897 er mwyn paratoi ar gyfer gweinidogaeth y Bedyddwyr; yn yr un flwyddyn cyhoeddodd gasgliad byr o farddoniaeth, *Durtur y Deffro*. Torrodd ei iechyd yng Ngorffennaf 1899, ac oherwydd hynny fe fethodd orffen ei flwyddyn gyntaf (1899-1900) yng Ngholeg y Brifysgol, Caerdydd. Yr oedd yn ail am y goron yn eisteddfod genedlaethol Lerpwl, 1900, a hawliodd ei bryddest ' Pantycelyn ' gryn sylw. Rhoes tysteb genedlaethol gyfle iddo dreulio Ionawr 1901 hyd Gorffennaf 1902 mewn gwledydd tramor, yn bennaf yn Kimberley, Deheudir Affrica. Erbyn hyn yr oedd wedi ei drwytho'n dda mewn llenyddiaeth Gymraeg a Saesneg. Ymddiddorai yn syniadau gwyddonol ei ddydd a'u harwyddocâd diwinyddol, ac yr oedd yn efrydydd trwyadl o lenyddiaeth yr Almaen. Parodd ei erthyglau (ar bynciau athrawiaethol) mewn cyfnodolion Cymraeg ddadlau chwerw ac ymosodiadau personol.

Wedi iddo ddychwelyd i Gymru diarddelwyd ef gan ei eglwys - Moriah, Pentre. Aeth cyflwr ei iechyd yn waeth a bu farw yn Ton Pentre 16 Awst 1903; claddwyd ef yn Treorci.

Gwnaeth ei bersonoliaeth, ei wroldeb ieuanc, ei ddeall cyflym, a'i addewid lenyddol argraff ddofn ar ei gyfoeswyr. Cyfyngid arno fel bardd gan ffurfiau llenyddol ac egwyddorion artistig y 19eg ganrif a oedd yn cyflym ddiflannu. Er hynny, y mae rhai darnau o'i waith ar ffurf y bryddest a'r awdl o safon uchel. Yn ei gyfnod olaf dylanwadwyd arno'n fawr gan y mudiad rhamantaidd newydd ym marddoniaeth Cymru. Dengys ei bregethau, ei erthyglau, a'i lythyrau gadernid ei arddull mewn rhyddiaith.

Golygwyd ei weithiau gan ei frawd ' Myfyr Hefin.' Y maent yn cynnwys *Cofiant a Barddoniaeth Ben Bowen* (1904), *Rhyddiaith Ben Bowen* (1909), *Blagur Awen Ben Bowen* (1915), *Ben Bowen yn Neheudir Affrica* (1928), *Ben Bowen i'r Ifanc* (1928).

Awdur

Syr Benjamin Bowen Thomas, (1899 - 1977)

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Ben Bowen](#)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [67531634](#)

Wikidata: [Q18536056](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

